Sector Newsletter Article (long version)

Working in partnership to tackle fuel poverty

The Welsh Government Warm Homes Nest scheme aims to tackle fuel poverty by improving the energy efficiency of existing homes across Wales.

Nest provides free advice to help households reduce their energy bills, increase their income and improve the energy efficiency of their homes. The scheme also provides free home improvements for people in receipt of a means tested benefit that own or privately rent their home. These improvements can include a new central heating boiler, loft insulation, or cavity wall and solid wall insulation.

Between 2011 and 2015, over 68,000 householders have contacted Nest and 17,700 have received free home improvements and saved an average of £477 on their energy bills.

Nest complements a range of advice and support services and works with partner organisations, including local authorities and a range of charities and third sector bodies, to reach households in most need. The team of Nest Partnership Development Managers are able to provide presentations and training, and work with partners on joint events and targeted campaigns.

Partner organisations then refer customers to Nest by either signposting the Nest freephone number (0808 808 2244) and website (www.nestwales.org.uk), or by using the dedicated Partner Portal website which provides the partner with feedback on their referrals.

If you think Nest could complement your work and you would be able to help reach people in need of support, please contact your local Partnership Development Manager - Mid and South Wales (rhian.liddiard@est.org.uk), South East Wales (Daniel.StJohn@est.org.uk), North Wales (rick.ward@est.org.uk), or West Wales (peter.hughes@est.org.uk).

Gweithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd

Nod cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol ledled Cymru.

Mae Nyth yn rhoi cyngor am ddim er mwyn helpu cartrefi i leihau eu biliau ynni, cynyddu eu hincwm a gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi. Mae'r cynllun hefyd yn darparu gwelliannau am ddim ar gyfer pobl sy'n cael budd-dal yn seiliedig ar brawf modd sy'n berchen ar eu cartref neu'n ei rentu'n breifat. Gall y gwelliannau hyn gynnwys boeler gwres canolog newydd, inswleiddio'r atig, neu inswleiddio waliau ceudod a waliau solet.

Rhwng 2011 a 2015, mae dros 68,000 o ddeiliaid tai wedi cysylltu â Nyth ac mae 17,700 wedi cael gwelliannau am ddim i'w cartref ac wedi arbed £477 ar gyfartaledd ar eu biliau ynni.

Mae Nyth yn ategu amrywiaeth o wasanaethau cyngor a chymorth ac yn gweithio gyda sefydliadau partner, gan gynnwys awdurdodau lleol ac amrywiaeth o elusennau a chyrff yn y trydydd sector, er mwyn cyrraedd cartrefi sydd â'r angen mwyaf. Gall tîm o Reolwyr Datblygu Partneriaeth Nyth roi cyflwyniadau a hyfforddiant, a gweithio gyda phartneriaid ar ddigwyddiadau ar y cyd ac ymgyrchoedd wedi'u targedu.

Mae sefydliadau partner yna'n cyfeirio cwsmeriaid at Nyth drwy naill ai eu cyfeirio at rif rhadffôn Nyth (0808 808 2244) a'r wefan (www.nestwales.org.uk/cy/hafan), neu drwy ddefnyddio gwefan benodedig Porth Partneriaid sy'n rhoi adborth i'r partner ar ei atgyfeiriadau.

Os credwch y gallai Nyth ategu eich gwaith ac y gallech helpu i gyrraedd pobl y mae angen cymorth arnynt, cysylltwch â'ch Rheolwr Datblygu Partneriaeth lleol - y Canolbarth a'r De (rhian.liddiard@est.org.uk), y De ddwyrain (Daniel.StJohn@est.org.uk), y Gogledd (rick.ward@est.org.uk), neu'r Gorllewin (peter.hughes@est.org.uk).